



WaterWatt Energy Efficiency Forum:

Free Event to help SMEs, large industrial producers and businesses, and others utilising large water circuits improve the Energy Efficiency of Industrial Water Circuits

The Horizon2020 WaterWatt Project

WaterWatt is funded by Horizon2020 and involves six international partners: [DECHEMA](#), [BFI](#) (Germany), [ISQ](#) (Portugal), [SINTEF](#) (Norway), [ISMB](#) (Italy) and [Cardiff University](#). The WaterWatt project (<https://www.waterwatt.eu/>) aims to increase energy efficiency in industrial water circuits (IWCs) across all industrial sectors. Currently, no benchmarks for energy consumption in IWCs and no tools to systematically improve their energy efficiency exists. Consequently, there is a lack of awareness of the energy saving potential. To address these challenges and empower businesses in Wales, the UK, and Europe, the WaterWatt project has developed an open-access online platform – the *Energy Efficiency Evaluation (E³) Platform* – that allows SMEs, large industrial producers and businesses, and others utilising large water circuits, to self-assess energy use and evaluate a range of existing technological options that can improve the efficiency of their circuits.

The WaterWatt Energy Efficiency Forum at Cardiff University, 17 Jan 2019, 9am – 12.30pm

WaterWatt Energy Efficiency Forum Schedule		
9 – 9.20	Welcome + Refreshments	
9.20 – 9.30	Opening Address	TBA (Welsh Government)
9.30 – 10	Improving the energy efficiency of IWCs: Making the Case	Dr Muriel Iten, ISQ
10 – 11	The E3 Platform: how it works and what it can do	Dr Jochen Michels, DECHEMA
11 – 11.30	Energy Efficiency Management and Finance Instruments	Dr Dean Stroud & Dr Martin Weinel, Cardiff University
11.30 – 12.30	Networking over light lunch	

*refreshment breaks on an *ad hoc* basis

Forum Venue: Sir Martin Evans Building (CF10 3AT), Room C0.12/C0.13 (adjacent to Foyer)

Why Should You Attend

The WaterWatt team will convene the Energy Efficiency Forum to highlight the importance of energy efficiency to meet future challenges and introduce the key features and capabilities of the E³ Platform.

Who Should Attend

The forum is open to anyone interested in the improvement of energy efficiency:

- Industry stakeholders with responsibility for building, running and maintaining water circuits
- Industry stakeholders with responsibility for environmental and energy-related standards
- Sector Organisations
- Welsh Government – Innovations and Business Development; Energy; Environment
- Academics, trainers and researchers: water engineering, civil engineering, sustainability and the environment



Why is improved energy efficiency critical?

Improving energy efficiency is a critical challenge for all industrial sectors, particularly for compliance with energy targets, audits and regulations. It is also important for future economic growth and industrial expansion, as well as future generations and meeting climate change obligations.

Why look at Industrial Water Circuits?

The relative energy demand of Industrial Water Circuits is low – approx. 5% of the overall energy used in industrial processes – but their absolute energy demand is significant: the total energy demand of all IWCs across the European Union is estimated to be 74,000GWh per year. Measures aimed at improving energy efficiency have principally been directed at primary production, which means that the energy saving potential of IWCs remains high.

To attend, please sign up on Eventbrite:

<https://www.eventbrite.co.uk/o/horizon-2020-waterwatt-consortium-10671425715>

For further information:

Please email Dr Dean Stroud stroudda1@cardiff.ac.uk or Dr Martin Weinel weinelm@cardiff.ac.uk

This project has received funding from the European Union's Horizon 2020 research and innovation programme under grant agreement No 695820.



Fforwm Effeithlonrwydd Ynni WaterWatt:

Digwyddiad rhad ac am ddim i helpu cwmnïau bach a chanolig, busnesau a chynhyrchwyr diwydiannol mawr, ac eraill sy'n defnyddio cylchedau dŵr mawr i wella Effeithlonrwydd Ynni Cylchedau Dŵr Diwydiannol

Prosiect WaterWatt Horizon2020

Cyllidir WaterWatt gan Horizon2020 ac mae'n cynnwys chwe phartner rhyngwladol: [DECHEMA](#), [BFI](#) (yr Almaen), [ISQ](#) (Portiwgal), [SINTEF](#) (Norwy), [ISMB](#) (yr Eidal) a [Prifysgol Caerdydd](#). Nod prosiect WaterWatt (<https://www.waterwatt.eu/>) yw cynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cylchedau dŵr diwydiannol ar draws yr holl sectorau diwydiannol. Ar hyn o bryd does dim meincnodau'n bodoli ar gyfer defnydd o ynni mewn cylchedau dŵr diwydiannol, nac unrhyw offerynnau i wella eu heffeithlonrwydd ynni'n systematig. O ganlyniad, mae diffyg ymwybyddiaeth o'r potensial i arbed ynni. I fynd i'r afael â'r heriau hyn a grymuso busnesau yng Nghymru, y DU ac Ewrop, mae prosiect WaterWatt wedi datblygu llwyfan ar-lein mynediad agored - *Llwyfan Gwerthuso Effeithlonrwydd Ynni (Llwyfan E³)* sy'n caniatáu i BBaChau, cynhyrchwyr diwydiannol a busnesau mawr ac eraill sy'n defnyddio cylchedau dŵr mawr i hunanasesu eu defnydd o ynni a gwerthuso amrywiaeth o opsiynau technolegol sy'n bodoli ac a all wella effeithlonrwydd eu cylchedau.

Fforwm Effeithlonrwydd Ynni WaterWatt ym Mhrifysgol Caerdydd, 17 Ionawr 2019, 9am – 12.30pm

Amserlen Fforwm Effeithlonrwydd Ynni WaterWatt		
9 – 9.20	Croeso a lluniaeth	
9.20 – 9.30	Anerchiad Agoriadol	I'w gyhoeddi (Llywodraeth Cymru)
9.30 – 10	Gwella effeithlonrwydd ynni cylchedau dŵr diwydiannol: Cyflwyno'r Achos	Dr Muriel Iten, ISQ
10 – 11	Llwyfan E3: sut mae'n gweithio a beth gall ei wneud	Dr Jochen Michels, DECHEMA
11 – 11.30	Rheoli Effeithlonrwydd Ynni ac Offerynnau Cyllid	Dr Dean Stroud & Dr Martin Weinel, Prifysgol Caerdydd
11.30 – 12.30	Rhwydweithio dros ginio ysgafn	

*seibiau lluniaeth ar sail *ad hoc*

Lleoliad y Fforwm: Adeilad Syr Martin Evans (CF10 3AT), C0.12/C0.13 (ger y Cyntedd)

Pam y dylech fynd i'r digwyddiad

Bydd tîm WaterWatt yn cynnull y Fforwm Effeithlonrwydd Ynni i dynnu sylw at bwysigrwydd effeithlonrwydd ynni i wynebu heriau'r dyfodol a chyflwyno nodweddion a galluoedd allweddol Llwyfan E³.

Pwy ddylai fynd i'r digwyddiad

Mae'r fforwm ar agor i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwella effeithlonrwydd ynni:

- Rhanddeiliaid diwydiannol â chyfrifoldeb am adeiladu, rhedeg a chynnal cylchedau dŵr
- Rhanddeiliaid diwydiannol â chyfrifoldeb am safonau amgylcheddol ac sy'n ymwneud ag ynni
- Sefydliadau'r Sector
- Llywodraeth Cymru - Arloesi a Datblygu Busnes; Ynni; Academyddion, hyfforddwy ac
- ymchwilwyr Amgylcheddol: peirianeg dŵr, peirianeg sifil, cynladwyedd a'r amgylchedd

Pam mae gwell effeithlonrwydd ynni yn hanfodol?

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn her gritigol i'r holl sectorau diwydiannol, yn enwedig ar gyfer cydymffurfio â thargedau ynni, archwiliadau a rheoliadau. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer twf economaidd y dyfodol ac ehangu diwydiannol, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol a chwrdd ag ymrwymadau newid hinsawdd.

Pam edrych ar Gylchedau Dŵr Diwydiannol?

Mae defnydd ynni perthynol Cylchedau Dŵr Diwydiannol yn isel - tua 5% o'r holl ynni a ddefnyddir mewn prosesau diwydiannol - ond mae eu defnydd absoliwt o ynni yn sylweddol: amcangyfrifir bod cyfanswm defnydd ynni'r holl gylchedau dŵr diwydiannol ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn 74,000GWh y flwyddyn. Mae mesurau â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni yn bennaf wedi'u cyfeirio at gynhyrchu cynradd, sy'n golygu bod potensial cylchedau dŵr diwydiannol i arbed ynni yn parhau'n uchel.

I fod yn bresennol, ymrestrwch ar Eventbrite

<https://www.eventbrite.co.uk/o/horizon-2020-waterwatt-consortium-10671425715>

Rhagor o wybodaeth:

Ebostwch Dr Dean Stroud stroudda1@caerdydd.ac.uk neu Dr Martin Weinel weinelm@caerdydd.ac.uk

Mae'r prosiect hwn wedi cael arian gan raglen ymchwil ac arloesedd Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd o dan gynllun grant rhif 695820.
